PCC 19.10 – Y Diweddaraf am y Mesurau Perfformiad Cenedlaethol, Ebrill 2010

Crynodeb

Dyma'r ail adroddiad monitro dwyflynyddol llawn i Fwrdd Rheoli CCC. Mae 30 o'r mesurau wedi cael eu diweddaru, gan ychwanegu gwybodaeth newydd, ers yr adroddiad diwethaf ym mis Hydref 2009.

Mae'r data'n awgrymu bod sefyllfa 31 Mesur Perfformiad Corfforaethol a 15 Mesur Busnes CCC ar 31 Mawrth 2010 fel a ganlyn:

	MPCau	MBau	Cyfanswm
Yn debygol o gwrdd â'r targed (gwyrdd)	10	9	**18**
Peth perygl o fethu â chwrdd â'r targed (ambr)	6	2	**8**
Ddim yn debygol o gwrdd â'r targed (coch)	1	0	**1**
Mewn sefyllfa i osod man cychwyn a/neu darged erbyn dyddiad y cytunwyd arno	3	2	**5**
Nid oes digon o wybodaeth ar gael i olrhain cynnydd	11	2	**15**
Cyfanswm	**31**	**15**	**46**

I gymharu, roedd y sefyllfa ym mis Hydref 2009 fel a ganlyn:

	MPCau	MBau	Cyfanswm
Yn debygol o gwrdd â'r targed (gwyrdd)	8	5	**13**
Peth perygl o fethu â chwrdd â'r targed (ambr)	5	2	**7**
Ddim yn debygol o gwrdd â'r targed (coch)	2	0	**2**
Mewn sefyllfa i osod man cychwyn a/neu darged erbyn dyddiad y cytunwyd arno	9	1	**10**
Nid oes digon o wybodaeth ar gael i olrhain cynnydd	7	7	**14**
Cyfanswm	**31**	**15**	**46**

Ar gyfer y Mesurau Perfformiad Corfforaethol:-

- Mae un mesur wedi symud o goch i ambr (5b Cynhaeaf pren caled).
- Mae dau fesur wedi symud o ambr i wyrdd (4c Datblygu a gweithredu arweiniad gweithredol ar gyfer cynyddu amrywiaeth rhywogaethau o goed mewn coetiroedd anfrodorol a 5a Cymhareb cynhaeaf/argaeledd pren meddal).
- Mae un mesur wedi symud o las i goch (7a GYC o'r sector coedwigaeth).
- Mae un mesur wedi symud o goch i wyn (7d Cyfran y coed a gynaeafir sy'n cael ei phrosesu yng Nghymru) oherwydd bod angen mireinio'r mesur hwn.
- Mae pum mesur wedi symud o las i wyn (gan fod mannau cychwyn a thargedau wedi cael eu gosod).

Yn ystod y cyfnod o dair blynedd byddwn yn gallu dangos y cynnydd a wnaed gyda phob mesur ac a ydym yn fwy neu'n llai tebygol o gwrdd â'r targed ym mhob cyfnod adrodd.

Tabl cryno o Fesurau Perfformiad Corfforaethol

			Mesurau Perfformiad	Mesur	Sefyllfa ym mis Mawrth 2010	Targed 2009-2012	Targed 2025
Rhoi Coetiroedd i Gymru ar waith	Rheoli ein sefydliad	Ymateb i newid yn yr hinsawdd	1. Coetir o dan reolaeth gynaliadwy	Arwynebedd o goetir sydd wedi'i ardystio neu sydd â chynllun rheoli a gymeradwywyd o dan CGG/BWW	Cadwyd ardystiad. Cymeradwywyd 15,700 ha o dan gynlluniau CGG ers 1 Ebrill 2009	Cedwir ardystiad. Cymeradwywyd 12,000 ha o dan gynlluniau CGG ers 1 Ebrill 2009.	180,000 ha
			2. Creu coetiroedd	Arwynebedd o goetir newydd a grëwyd	209 ha yn 2009/10	1,500 ha dros 3 blynedd	*Heb ei osod*
			3. Arwyneb-edd o goetir wedi'i reoli heb lwyrdorri	a) Arwynebedd o YGLIC a reolir heb lwyrdorri	37,400 ha	40,300 ha	*Heb ei osod*
				b) Arwynebedd y tu allan i YGLIC a reolir drwy CGD/CCF neu sy'n cael ei drawsnewid yn CGD	Cymeradwywyd 527 ha o dan CGG i'w trawsnewid yn CGD ers 1 Ebrill 2009	*Heb ei osod*	*Heb ei osod*
				c) Cyfaint teneuo blynyddol cyfartalog ar YGLIC	183,452 m^3 yn 2009/10	600,000 m^3 dros 3 blynedd	Cyfartaledd: 280,000 m^3 y flwyddyn
			4. Amryw-iaeth o rywogaethau coed mewn coetiroedd anfrodorol	a) Cyfran o goetir anfrodorol gydag 1, 2, neu 3+ o rywogaethau	Disgwylir diweddariad ym mis Ebrill 2014	*Heb ei osod*	*Heb ei osod*
				b) Nifer cymedrig o rywogaethau yng nghoetir anfrodorol Cymru	Disgwylir diweddariad ym mis Ebrill 2014	*Heb ei osod*	*Heb ei osod*
				c) Datblygu a gweithredu arweiniad gweithredol	Cwblhawyd y gwaith datblygu. Disgwylir gweithredu yn unol â'r amserlen	Datblygu a gweithredu arweiniad o 10/11	*Heb ei osod*
			5. Lleihau effaith newid yn yr hinsawdd	a) Cymhareb cynhaeaf/argaeledd pren meddal	Yn debygol o gyrraedd y targed ar gyfer 2009/10	Cyfartaledd treigl 10-ml: 86% (o fewn 77%-98% bob blwyddyn)	Cyfartaledd treigl 10-ml: 86% (o fewn 77%-98% bob blwyddyn)
				b) Cynhaeaf pren caled	Cynnydd yn y cynhaeaf ar YGLIC	108,000 m^3obs dros 3 blynedd	25%
				c) Gallu gosodedig ar gyfer ffermydd gwynt ar YGLIC	59 MW	150 MW	700 MW
		Coetiroedd i Bobl	6. Lefel o ymwneud y cyhoedd â choetiroedd	a) Ymgynghori ar gynlluniau coetir (% o oedolion)	5%	4% yn 2009 a 2011	*Heb ei osod*
				b) Aelodaeth o grwpiau cymunedol coetir (% o oedolion)	3%	2% yn 2009 a 2011	3%
				c) Arwynebedd o goetir sy'n eiddo i/yn cael ei brydlesu i grwpiau cymunedol	Disgwylir diweddariad ym mis Ebrill 2013	Yn berchen ar neu'n prydlesu 624 ha	*Heb ei osod*
				d) Cymryd rhan mewn addysg coetir (% o oedolion)	11%	10% yn 2009 a 2011	Cynnal ar oddeutu 10%
				e) Defnydd o goetir ar gyfer hamdden y llynedd (% o oedolion)	Disgwylir diweddariad ym mis Hydref 2011	40% yn 2011	*Heb ei osod*
				f) Cyfran o ymweliadau ag YGLIC sy'n brofiad o ansawdd uchel	Fe'i gosodir mewn pryd	*Man cychwyn a tharged erbyn 31/3/11*	*Heb ei osod*
				g) Mynediad rhwydd i goetir heb gar (% o oedolion)	63%	62% yn 2009 a 2011	70%
				h) Mynediad i 2 ha+ o goed o fewn 500m (% o'r boblogaeth)	17% yn 2009	17% yn 2010/11	25%
				i) Mynediad i 20 ha+ o goed o fewn 4km (% o'r boblogaeth)	77% yn 2009	72% yn 2010/11	72%
		Y Sector Coedwig	7. Lefel o fenter sy'n gysylltiedig â choetiroedd a phren	a) Mynegai Gwerth Ychwanegol Crynswth y sector coedwigaeth (blwyddyn gychwynnol = 2004) ar gyfer Cymru o'i gymharu â'r mynegai ar gyfer y DU	Mynegai GYC Cymru= 93. Mynegai'r DU= 101	Cynnal mynegai GYC Cymru ar neu uwchben lefel mynegai'r DU	Mynegai GYC Cymru ar neu uwchben lefel mynegai'r DU
				b) Cynhyrchu incwm a chynhyrchion o goetir fferm	Disgwylir diweddariad yn 2012	4% o ffermwyr yn cynaeafu defnyddiau i'w gwerthu	*Heb ei osod*
				c) Gwerth Ychwanegol Crynswth o fusnesau bach	Gosodir y man cychwyn a'r targed yn gynt na'r disgwyl	*Ffrâm, man cychwyn a tharged enghreifftiol erbyn 31/3/11*	*Heb ei osod*

				d) Cyfran y coed a gynaeafir sy'n cael ei phrosesu yng Nghymru	Mae angen mireinio'r mesur	70% yn 2012	74%
				e) Cyfran o dai newydd sy'n defnyddio fframwaith coed	Disgwylir diweddariad yn 2010	16% yn 2012	*Heb ei osod*
		Ansawdd Amgylcheddol	8. Hyd a lled coetiroedd brodorol	a) Arwynebedd o goetir brodorol	Disgwylir diweddariad yn 2014	*Heb ei osod*	133,000 ha
				b) Arwynebedd o goetir brodorol newydd a grëwyd ers 2009	188 ha yn 2009/10	1,000 ha	8,000 ha
				c) Arwynebedd o PSCH/PAWS a adferwyd yn goetir brodorol ers 2009	Blaenoriaethu yn unol â'r amserlen	*Blaenoriaethu safleoedd YGLIC*	10,000 ha gan gynnwys 6,000 ha ar YGLIC
					Ni ellir adrodd ar hyn o bryd	1,000 ha	
				d) Arwynebedd o goetir arall a drawsnewidiwyd yn goetir brodorol ers 2009	Y broses adnabod yn mynd rhagddo	Adnabod >5,000 ha ar gyfer trawsnewid	5,000 ha
			9. Cyflwr coetiroedd brodorol	Cyfran o goetir brodorol mewn cyflwr ffafriol neu'n cael ei hadfer	Disgwylir diweddariad yn 2014	*Heb ei osod*	43% (o 110,000 ha)

Tabl cryno o Fesurau Busnes

Mesur busnes	Man cychwyn	Sefyllfa ym mis Mawrth 2010	Targed 2012
1. Boddhad staff	Bydd arolwg staff 2009 yn gosod y man cychwyn	Cwblhawyd y gwaith ar y man cychwyn	Gwelliant o 2% yn y canlyniadau cryno ar gyfer meysydd cwestiynau mewn holiaduron dilynol
2. Amrywiaeth staff	30.5% o staff CCC yn fenywod ar 31/3/2009	31.1% yn 31/3/2010	32% o staff CCC yn fenywod ar 31/3/12
	2.7% o staff CC Prydain Fawr ag anabledd wedi'i hunanddatgan ar 31/3/2009	2.7% yn 31/3/2010	3.5% o staff CCC ag anabledd wedi'i hunanddatgan ar 31/3/12
3. Anghenion hyfforddiant staff yn cael eu nodi, eu cyplysu ag anghenion y corff a'u rhaglennu / cyflawni	-	Darparwyd 131% o hyfforddiant technegol, 128% o hyfforddiant datblygu yn 2009/10	Cyflawni neu raglennu 80% o anghenion hyfforddi a nodir bob blwyddyn
4. Manteisio ar anghenion hyfforddiant ffurfiol a nodir ar gyfer staff	-	Mynychodd 95.6% o staff hyfforddiant gorfodol / y cytunwyd arno yn 2009/10	95% o staff enwebedig i fynychu digwyddiadau dysgu a datblygu gorfodol / y cytunir arnynt bob blwyddyn [heb gynnwys salwch]
5. Cyfran y swyddi y nodir bod angen cymhwysedd yn y Gymraeg ar eu cyfer ac a lenwir â staff â sgiliau priodol	-	Cwblhawyd y man cychwyn	Cwblhawyd y man cychwyn, yn nodi dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yn CCC yn 2009
	-	Yn unol â'r amserlen	Blaenoriaethu swyddi lle mae angen 'cyfatebiaeth' iaith well
6. Cynhyrchu set o gyfrifon ddiamod	Ddim yn berthnasol	Cwblhawyd yn unol â'r amserlen	Erbyn 31 Gorffennaf (bob blwyddyn) yn y flwyddyn ariannol ddilynol.
7. Cyllid nid-man cychwyn ar gyfer blaenoriaethau corfforaethol	-	Sicrhawyd £12.2 filiwn hyd yma hyd ddiwedd 2011/12	£12 miliwn o fewn y tair blynedd 09/10, 10/11 ac 11/12
8. Nifer targed o ddatganiadau i'r wasg; canran o sylw'r wasg sy'n ffafriol	-	171 yn 2009/10	200 datganiad i'r wasg ar gyfartaledd bob blwyddyn dros gyfnod o dair blynedd
	-	76% yn ffafriol	60% o sylw'r wasg yn ffafriol i CCC (o'i gymharu â sylw ffeithiol neu anffafriol)
9. Targedau cynaliadwyedd busnes	Defnyddio egni: 605.6 mil kg o CO2e	Defnyddio egni: 585.1 mil kg o CO2e (gostyngiad o 3.4% yn y flwyddyn gyntaf)	Gostyngiad o 3% bob blwyddyn dros gyfnod o dair blynedd
	Teithio gan staff: 1058 mil kg o CO2e	Teithio gan staff: 989 mil kg o CO2e (gostyngiad o 6.6% yn y flwyddyn gyntaf)	Gostyngiad o 5% bob blwyddyn dros gyfnod o dair blynedd
	Swm anhysbys o wastraff mewn kg	Sefydlwyd man cychwyn rhannol, ond mae angen gwella ansawdd y data	Gostyngiad mewn gwastraff o'i gymharu â man cychwyn 08/09
	Swm anhysbys o ailgylchu mewn kg		Cynnydd yng nghanran y gwastraff a ailgylchir o'i gymharu â man cychwyn 08/09

1. Coetir o dan reolaeth gynaliadwy

Ein targedau ar gyfer 2010 yw cynnal ardystiad Ystâd Goetir Llywodraeth y Cynulliad (YGLlC) a sicrhau bod cynllun rheoli CGG/BWW yn cael ei gymeradwyo ar gyfer 12,000 ha o goetir y tu allan i YGLlC yn y tair blynedd o 1 Ebrill 2009.

Cynhaliwyd ardystiad YGLlC: Roedd yr archwiliad o ystâd goetir 126,000 ha y Cynulliad a wnaed ym mis Gorffennaf 2009 gan SGS Qualifor yn archwiliad ail-werthuso, sef y prif archwiliad ar ddechrau cyfnod 5-mlynedd newydd. Cafodd adroddiad yr archwiliad ei dderbyn ym mis Tachwedd 2009 ac er i ni dderbyn 3 Chais Cywiro bach newydd nid yw'r un o'r rhain yn peri pryder ac rydym wedi gweithredu ar y 2 Gais Cywiro bach o archwiliad gwyliadwriaeth 2008. Ar 24 Chwefror 2010 derbyniodd y Comisiwn Coedwigaeth ardystiad deuol, sy'n golygu y gallwn labelu ein cynhyrchion o dan naill ai'r cynllun FSC (Y Cyngor Stiwardiaeth Coedwig) neu'r cynllun PEFC (Y Rhaglen ar gyfer Cadarnhau Ardystiad Coedwig), neu'r ddau. Yn y dyfodol, bydd cyhoeddiadau'r CC yn cynnwys y ddau logo.

Rydym eisoes wedi rhagori ar darged 2012 ar gyfer coetiroedd y tu allan i YGLlC: Yn y deuddeg mis hyd 31 Mawrth 2010 cymeradwywyd cynlluniau CGG ar gyfer 15,700 ha o goetir y tu allan i YGLlC, ymhell dros y targed tair-blynedd o 12,000 ha. Hefyd, mae 8,300 ha arall o goetir y tu allan i YGLlC 'yn y system' ac yn aros i gael eu cymeradwyo.

miloedd o hectarau

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:	2004/05	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
(i) Arwynebedd o goetir ardystiedig yn YGLlC[a]	109	108	107	106	105	105
(ii) Cyfanswm yr arwynebedd o dan CGG sydd â chynllun rheoli a gymeradwywyd[b2]	0	0	<1	6.4	17.4	33.1
Cyfanswm YGLlC ardystiedig ynghyd ag arwynebedd o dan CGG	109	108	107	112	122	138

Ffynonellau: [a] Ystadegau Coedwigaeth [b] Cronfa ddata GLOS

2. Creu coetir

Ein targed ar gyfer 2012 yw creu cyfanswm o 1,500 ha o goetir newydd yn y tair blynedd o 1 Ebrill 2009. Mae'r ffigurau dros dro ar gyfer plannu y talwyd amdano o dan CGG a Thir Gofal yn 2009/10 yn dod i gyfanswm o 209 ha, sy'n awgrymu bod risg na fyddwn yn cwrdd â'r targed hwn. Bydd y ffigurau terfynol ar gael ym mis Medi 2010.

hectarau

	Data hanesyddol ar blannu blynyddol						Plannu a gynlluniwyd mewn cynlluniau sydd wedi a heb eu cymeradwyo	
Blwyddyn ariannol:	04/05	05/06	06/07	07/08	08/09	09/10	10/11	11/12
CGG: Cnydau safonol[a]	0	0	0	27	6	15	13	54
CGG: Cymysgeddau Syml[a]	0	0	0	0	3	0	6	0
CGG: Cymysgeddau o Safon[a]	0	0	0	3	5	7	49	6
CGG: Coetir brodorol[a]	0	0	0	54	61	104	355	170
Cynllun Grant Coetir[b]	534	460	425	120	34	0	0	0
Cyfanswm o dan CGG	**534**	**460**	**425**	**203**	**109**	**125**	**423**	**230**
Tir Gofal (y tu allan i CGG)[c]	dd/b	81	90	58	74	84	dd/b	dd/b
Cyfanswm coetir newydd (ha)	**534**	**541**	**515**	**261**	**183**	**209**	**423**	**230**

Ffynonellau: [a] Cronfa ddata GLOS [b] Ystadegau CC a baratowyd ar gyfer Ystadegau Coedwigaeth [c] Ffigurau'r Cynulliad ar gyfer plannu <0.25 ha o dan Dir Gofal.

3. Arwynebedd o goetir wedi'i reoli heb lwyrdorri

3(a) Arwynebedd o YGLlC a reolir heb lwyrdorri

Ein targed ar gyfer 2012 yw bod 40,300 ha yn cael eu nodi mewn Cynlluniau Coedwig i'w rheoli o dan drefn heblaw am lwyrdorri erbyn 31/03/12 (h.y. nodir 2,950 ha yn ychwanegol dros y tair blynedd o 1 Ebrill 2009). Ni fu llawer o gynnydd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf o ran nodi rhagor o ardaloedd i'w rheoli heb lwyrdorri. Nid ydym yn debygol o gwrdd â'r targed hwn ar hyn o bryd. Sut bynnag, bydd y 69,424 ha o YGLlC sydd mewn Cynlluniau Dyluniad Coedwig (CDCiau) yn cael eu hadolygu yn ystod y ddwy flynedd nesaf, felly mae'n dal yn bosibl i ni gwrdd â'r targed hwn.

hectarau

Yn:	31/3/05	*22/11/05*	31/3/07	31/3/08	31/3/09	31/3/10	10/11	11/12
Arwynebedd o YGLlC a reolir heb lwyrdorri (ha) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	32,706	*35,492*	38,857	36,892	37,270	37,400[d]		
Arwynebedd o YGLlC mewn CDCiau sydd i gael eu hadolygu ym mhob blwyddyn ariannol							29,625[e]	39,799[c]

Ffynhonnell: Holi systemau mewnol y CC. [d] Y sefyllfa ar ganol Mawrth 2010 [e] Y sefyllfa ym mis Hydref 2009

3(b) Arwynebedd o dan CGG a reolir drwy CGD/CCF neu sy'n cael ei drawsnewid i CGD

Ar 1 Ebrill 2009 (y dyddiad man cychwyn) roedd 3,424 ha o goetir mewn cynlluniau CGG a gymeradwywyd wedi cael ei nodi'n addas ar gyfer ei drawsnewid yn CGD. Erbyn 31 Mawrth 2010, roedd 527 ha yn ychwanegol wedi dod i mewn i CGG ar gyfer eu trawsnewid. Ni osodwyd targed eto ar gyfer y mesur hwn.

hectarau

Blwyddyn ariannol:	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
(i) Arwynebedd o goetir o dan CGG gyda chynllun a gymeradwywyd ar gyfer trawsnewid yn CGD	3	551	3,424	3,951
(ii) Arwynebedd o goetir o dan CGG gydag o leiaf 1 ymyriad y talwyd amdano ar gyfer trawsnewid yn CGD	0	33	322	1,432

Ffynhonnell: Cronfa ddata GLOS

3(c) Cyfaint teneuo blynyddol cyfartalog ar YGLIC

Ein targed yn 2012 yw cael 600,000 m^3 yn ystod y tair blynedd o 1 Ebrill 2009, gyda'r cyfaint yn cynyddu bob blwyddyn fel y dangosir yn y tabl isod. Yn 2009/10, roedd cyfaint y cynhaeaf teneuo yn 183,452 m^3 (176,077 m^3 o bren meddal a 7,380 m^3 o bren caled), felly rydym yn debygol o gwrdd â'r targed hwn. Sut bynnag, mae peth pryder y bydd y targed ar gyfer 2010/11 yn heriol gan fod cynlluniau *coupe* ar gyfer 2010/11 yn hwyr yn cyrraedd. Rydym yn mynd i'r afael â'r mater hwn, ond mae perygl o hyd y byddwn yn methu â chwrdd â tharged 2010/11.

miloedd o m^3

Blwyddyn ariannol yn dod i ben:	31/3/05	31/3/06	31/3/07	31/3/08	31/3/09	31/3/10	31/3/11	31/3/12
Cyfaint a deneuwyd (k m^3)	289	253	193	187	191	183.5		
Cyfaint a gynlluniwyd						184.5	198.5	225.7

Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol a Chynnydd cynllun gwerthiant ar gyfer ffigurau yn ystod y flwyddyn

4. Amrywiaeth o rywogaethau coed mewn coetiroedd anfrodorol

4(a) Cyfran o goetir anfrodorol yng Nghymru sy'n cynnwys 1, 2 a 3 neu ragor o rywogaethau

Rydym wedi gosod man cychwyn ar gyfer y mesur hwn yn unol â'r amserlen: mae casgliadau NIWT 1 yn dangos bod 53% o flociau 0.25 ha yn cynnwys 1 rhywogaeth, 19% yn cynnwys 2 rywogaeth a 28% yn cynnwys 3 neu ragor o rywogaethau yn 1997. Ni osodwyd targed ar gyfer y mesur hwn.

4(b) Nifer cymedrig o rywogaethau ym mhob sgwâr 0.25 ha o goetir anfrodorol Cymru

Roedd y nifer cymedrig o rywogaethau o goed/llwyni am bob sgwâr asesu anfrodorol yn NIWT (1997) yn 2.2 (cyfeiliornad safonol 0.4). Ni ddisgwyliwn i'r mesur hwn gael ei

ddiweddaru hyd nes cyhoeddi arolwg maes y Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol yn 2014. Ni osodwyd targed ar gyfer y mesur hwn.

4(c) Datblygu a gweithredu arweiniad gweithredol

Mae gennym darged hefyd ar gyfer datblygu arweiniad gweithredol ar gyfer ailblannu coetiroedd anfrodorol erbyn 31/12/09 ac ar gyfer ymgorffori'r arweiniad hwn mewn cynlluniau plannu ar gyfer YGLlC o'r tymor plannu 2010/11 ymlaen. Cafodd drafft cyntaf y "*Corporate guidance for the planting and establishment of tree species in Wales*" ei gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli ym mis Mawrth 2010, ychydig ar ei hôl hi. Mae'r arweiniad yn cynnwys astudiaethau achos a chynllun cyflawni sy'n nodi'r hyn y gellir ei newid yn y tymor byr, canolig a hir. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal ym mhob Rhanbarth Goedwig ac yng Ngweithrediadau Coedwriaethol Cymru (WSO) i sicrhau y cwblheir y gwaith mor fuan ag sy'n rhesymol bosibl. I grynhoi, disgwylir cwblhau mewn pryd.

5. Lleihau effaith newid yn yr hinsawdd

5(a) Cymhareb cynhaeaf/argaeledd pren meddal

Ein targed yw cadw'r gymhareb cynhaeaf/argaeledd pren meddal o dan 86% ar sail cyfartaledd 10-mlynedd ac o fewn yr amrediad 77%-98%. Yn 2008, roedd y gymhareb ychydig o dan y targed, sef 76%. Mae ffigurau rhagarweiniol Cynaeafu a Marchnata Cymru am gynhaeaf pren meddal YGLlC yn 2009/10 yn dangos i 878,627 m^3 gael eu cynaeafu yn 2009/10 (702,550 m^3 o lwyrdorri a 176,077 m^3 o deneuo) sy'n awgrymu y bydd y gymhareb yn uwch yn 2009/10 a'n bod ni'n debygol o gwrdd â'r targed.

miloedd o m^3 obs

Blwyddyn galendr:	2004/05	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
Cynhyrchiad pren meddal YGLlC	958	823	747	713	679	879
Cynhyrchiad pren meddal nid-YGLlC	395	363	427	483	428	*
Cyfanswm cynhyrchiad	1,353	1,186	1,175	1,196	1,107	*
Rhagolwg o argaeledd pren meddal	1,547	1,547	1,547	1,457	1,457	1,457
Cynhaeaf/Argaeledd %	**87%**	**77%**	**76%**	**82%**	**76%**	*

Ffynonellau: Ystadegau Coedwigaeth. Cynhyrchiad pren meddal YGLlC ar gyfer 2009/10, Cynaeafu a Marchnata Cymru.

** Bydd ffigurau 2009/10 ar gyfer cynhyrchiad pren meddal nid-YGLlC ar gael ym mis Medi 2010.*

5(b) Cynhaeaf pren caled

Ein targed yw cynaeafu cyfanswm o 108,000 m^3 obs o bren caled yn ystod y tair blynedd o 1 Ebrill 2009 (sy'n gyfwerth â 36,000 m^3 obs y flwyddyn). Mae ffigurau o flynyddoedd blaenorol yn awgrymu y bydd yn anodd cwrdd â'r targed hwn. Ond mae ffigurau rhagarweiniol Cynaeafu a Marchnata Cymru yn awgrymu y bu cryn gynnydd yn y cynhaeaf pren caled o YGLlC yn 2009/10 (7,380 m^3 o deneuo). Mae'n rhy gynnar eto i ddweud a fydd modd cwrdd â'r targed hwn.

miloedd o m^3 obs

Blwyddyn galendr:	2004/05	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
Pren caled a symudwyd o YGLlC	10	12	3	3	3	7.4
Pren caled arall a symudwyd, nid-YGLlC	15	18	18	19	19	*
Cyfanswm pren caled a symudwyd	25	29	22	22	21	*

Ffynonellau: Ystadegau Coedwigaeth. Cynhyrchiad pren caled YGLlC ar gyfer 2009/10, Cynaeafu a Marchnata Cymru.

** Bydd ffigurau 2009/10 ar gyfer cynhyrchiad pren caled nid-YGLlC ar gael ym mis Medi 2010.*

5(c) Gallu gosodedig ar gyfer egni adnewyddadwy ar YGLlC

Ein targed yw gosod 150MW o allu cynhyrchu egni gwynt adnewyddadwy erbyn 31/3/12. Mae Cefn Croes eisoes yn weithredol ac yn cyfrannu 59MW. Erbyn diwedd 2011/12 disgwylir y bydd gwaith adeiladu wedi cychwyn ar 258MW ychwanegol. Ond rhagwelir na osodir rhagor o allu cynhyrchu hyd 2012/13. Nid yw'n debygol y byddwn yn cwrdd â'r targed ar gyfer 2012. Mae cyflymder adeiladu a chomisiynu ffermydd gwynt yn dibynnu i raddau helaeth ar asiantaethau allanol megis Ymgynghoreion Statudol a'r Awdurdodau Cynllunio. Er y bydd hyn yn effeithio ar yr amserlen, mae CCC yn parhau'n hyderus y bydd yn cwrdd â'r targed terfynol yn nhermau MegaWatiau.

MegaWatiau

Blwyddyn ariannol:	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
Cyfanswm yn y System Gynllunio	442	618	642			
Cyfanswm yn cael ei Adeiladu	0	0	258	440.5	464.5	201
Cyfanswm a Osodwyd	59	59	59	83	341	601.5

Ffynhonnell: Tîm Prosiect Ffermydd Gwynt yr Ystâd Goedwig Genedlaethol

6. Lefel o ymwneud y cyhoedd â choetiroedd

Blwyddyn galendr:	Man cychwyn	Targed ar gyfer 2011 neu 2012	Data diweddaraf	Sylw
(a) Ymgynghori ar gynlluniau coetir (% oedolion)[a]	4% (2005)	4% (2011)	5% (2009)	Yn debygol o gwrdd â'r targed
(b) Yn aelodau o grŵp coetir cymunedol (% oedolion)[a]	2% (2005)	2% (2011)	3% (2009)	Yn debygol o gwrdd â'r targed
(c) Arwynebedd o goetir sy'n cael ei brydlesu i neu sy'n eiddo i grwpiau coetir cymunedol[b]	624 ha (2010)	624 ha (2012)	Ddim ar Gael	Gosodwyd y man cychwyn yn unol â'r amserlen
(d) Yn cymryd rhan mewn addysg goetir (% oedolion)[a]	10% (2005)	10% (2011)	11% (2009)	Yn debygol o gwrdd â'r targed
(e) Wedi defnyddio coetir at bwrpas hamdden yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (% oedolion)[a]	40% (2003)	40% (2011)	Ddim ar Gael	Disgwylir diweddariad erbyn 2011
(f) Y gyfran o ymweliadau coetir sy'n cynnig profiadau o ansawdd uchel [c]	Ddim ar Gael	Ddim ar Gael	Ddim ar Gael	Disgwylir y man cychwyn erbyn diwedd 2011
(g) Mynediad rhwydd i goetir heb gar (% oedolion)[a]	59% (2005)	62% (2011)	63% (2009)	Yn debygol o gwrdd â'r targed
(h) Mynediad i 2 ha+ o goed o fewn pellter o 500m (% o'r boblogaeth)[d]	16% (2004)	17% (2012)	17% (2009)	Yn debygol o gwrdd â'r targed
(i) Mynediad i 20 ha+ o goed o fewn pellter o 4km (% o'r boblogaeth)[d]	72% (2004)	72% (2012)	77% (2009)	O flaen y targed

Ffynonellau: [a] Arolwg y CC o'r Farn Gyhoeddus am Goedwigaeth [b] Arolwg CC Cymru o Grwpiau Coetir Cymunedol [c] Arolwg CC Cymru o Ansawdd Profiad [d] Dadansoddiad Lle i Bobl

Mae'r data diweddaraf o Arolwg 2009 y CC o'r Farn Gyhoeddus am Goedwigaeth ac o'r dadansoddiad Lle i Bobl yn dangos ein bod yn debygol o gwrdd â'r targedau ar gyfer (a), (b), (d), (g), (h) ac (i). Disgwylir diweddariad ar gyfer (e) a'r man cychwyn a'r targed ar gyfer (f) ar ddiwedd 2010/11.

Mae'r man cychwyn ar gyfer (c) wedi cael ei osod yn unol â'r amserlen, gan ddefnyddio data o Arolwg CC Cymru o Grwpiau Coetir Cymunedol. Ar hyn o bryd, mae 126 o grwpiau coetir cymunedol yn weithgar yng Nghymru ac maent yn rheoli 1537 hectar o goetir; mae 388 hectar (25%) o hyn yn eiddo i'r grwpiau, tra bo 236 hectar (15%) yn cael ei brydlesu

ganddynt. Felly mae cyfanswm o 624 hectar yn eiddo i neu'n cael eu prydlesu gan y grwpiau hyn (41% o'r coetir a reolir).

Rydym wedi gosod targed ar gyfer (c) Arwynebedd o goetir sy'n cael ei brydlesu i neu sy'n eiddo i grwpiau coetir cymunedol ar gyfer 31/3/2012, sef 624 hectar – hynny yw, dylid cynnal yr arwynebedd hwn o leiaf. Rydym yn ystyried bod hyn yn darged rhesymol gan ei bod yn debygol na fydd rhai o'r grwpiau cymunedol yng Nghymru yn weithgar yn y blynyddoedd ar ôl i'r prosiect Cydcoed ddod i ben.

7. Lefel o fenter sy'n gysylltiedig â choetiroedd a phren[a]

7(a) Gwerth Ychwanegol Crynswth y Sector Coedwigaeth:

Rydym wedi gosod targed yn ôl yr amserlen ar gyfer GYC (GVA) y sector coedwigaeth yn 2009-2012. Ein targed yw cynnal mynegai GYC Cymru (lle mae'r flwyddyn gychwynnol yn 2004 = 100) ar neu uwchben lefel mynegai'r DU (lle mae'r flwyddyn gychwynnol hefyd yn 2004 = 100). Mae'r ffigurau GYC diweddaraf ar gyfer 2007 yn dangos bod mynegai Cymru wedi gostwng i 93 pwynt ers 2004, tra bo mynegai'r DU wedi cynyddu i 101 pwynt. Mae hyn yn awgrymu nad ydym ar hyn o bryd yn debygol o gwrdd â'n targed. Mae'r gostyngiad yng ngwerth y sector coedwigaeth yng Nghymru wedi digwydd yn benodol oherwydd y dirywiad tymor-hir yn yr is-sector Mwydion, papur a chynhyrchion papur (gweler y graff isod). Ar y llaw arall, mae'r is-sector Coedwigaeth, torri coed a gwasanaethau perthynol wedi aros yn gyson, tra bo'r sector Gweithgynhyrchu pren a chynhyrchion pren wedi dangos cynnydd cyson.

Cymharu GYC Cymru â GYC y DU (gan ddefnyddio ffigurau GYC rhanbarthol)

Blwyddyn Galendr	2004	2005	2006	2007
GYC rhanbarthol y sector coedwigaeth yng Nghymru (£ miliwn)	401	386	393	372
GYC sector coedwigaeth y DU (£ miliwn)	6,439	6,400	6,111	6,536
Mynegai GYC Rhanbarthol yng Nghymru (blwyddyn gychwynnol = 2004)	100	96	98	93
Mynegai GYC Rhanbarthol yn y DU (blwyddyn gychwynnol = 2004)	100	99	95	101

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

[a] *Sut y cyfrifir y ffigurau GYC:* Mae'r ffigurau GYC rhanbarthol ar gyfer Coedwigaeth, torri coed a gwasanaethau perthynol ac ar gyfer Gweithgynhyrchu pren a chynhyrchion pren yn dod o'r Cyfrifon Rhanbarthol a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=299.
Yn y Cyfrifon Rhanbarthol, mae'r ffigurau ar gyfer Gweithgynhyrchu mwydion, papur a chynhyrchion papur wedi'u cyfuno gyda'r ffigurau ar gyfer Cyhoeddi ac argraffu. Felly, defnyddir gwybodaeth fanylach o'r Ymholiad Busnes Blynyddol (YBB/ABI) i amcangyfrif y gyfran o'r Cyfrifon Rhanbarthol sy'n ymwneud yn benodol â Mwydion, papur a chynhyrchion papur.



	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007
	334	305	303	302	287	237	222	226	196
	124	125	122	130	140	145	145	149	157
	21	18	18	18	19	19	19	18	19

Blwyddyn

** Amcangyfrifwyd gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Cyfrifon Rhanbarthol ac o'r Ymholiad Busnes Blynyddol. Gweler isod.*

7(b) Cynhyrchu incwm a chynhyrchion o goetir fferm

Rydym wedi gosod y man cychwyn yn ôl yr amserlen. Yn 2009, roedd 4% o'r 7,500 o ffermydd ag o leiaf 0.5 hectar o goetir yn cynaeafu coed tân neu bren i'w werthu, ac roedd 38% yn cynaeafu cynhyrchion at ddefnydd personol. (Bydd y ffigurau hyn yn cael eu trawsnewid yn % o arwynebedd coetir fferm yn ystod 2010).

Mae 13% o ffermydd *sydd wedi derbyn grant coetir gan y CC* yn ennill peth incwm o'u coetiroedd. Mae pob fferm yn ennill tua £2,600 ar gyfartaledd, ac mae 58% o'r incwm hwn yn dod o werthu pren a 39% o werthu coed tân. Mae'r gweddill yn dod o amrywiaeth o weithgareddau megis gwerthu hadau a gasglwyd, ralïo, a gwersylla yn y coetiroedd.

O'i gymharu â hyn, dim ond 6% o ffermydd â >.5 hectar o goetir ac *nad ydynt wedi cael grant* sy'n ennill unrhyw incwm o'u coetiroedd, ac nid yw hyn ar gyfartaledd ond £700 ar gyfer pob fferm. Mae 80% o'r incwm hwn yn dod o bren (yn enwedig coed Nadolig) a 10% o goed tân.

Rydym wedi gosod targed ar gyfer y mesur hwn ar gyfer 201/12. Ein targed yw bod 4% o ffermydd ag o leiaf 0.5 hectar o goetir yn parhau i gynaeafu defnydd i'w werthu: mesurir hyn yn Arolwg nesaf CCC yn ystod hydref 2011. Bydd yr ail arolwg hwn yn ein galluogi i ganfod tuedd a fydd yn ein helpu i osod y targed ar gyfer 2012/13 – 2014/15.

7(c) Gwerth Ychwanegol Crynswth o fentrau cymdeithasol a busnesau bach sy'n gysylltiedig â choetiroedd

Y nod oedd creu ffrâm enghreifftiol ar gyfer arolwg o fentrau erbyn 31/3/10 a chyhoeddi man cychwyn a tharged erbyn 31/3/11. Rydym wedi creu'r ffrâm enghreifftiol yn gynt na'r disgwyl ac mae'r arolwg o fentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd wedi cael ei gwblhau. Disgwylir yr adroddiad terfynol ym mis Mai 2010.

7(d) Prosesu coed yng Nghymru

Ein targed yw i 70% o'r coed a dyfir yng Nghymru gael ei brosesu yng Nghymru erbyn 2010. Ar hyn o bryd yr unig ddata sydd gennym yw'r gyfran o foncyffion pren meddal *sydd wedi'u harfaethu ar gyfer melinau coed* sydd wedyn yn cael eu prosesu yng Nghymru. Yn 2008 cafodd 68% o'r pren meddal a dyfwyd yng Nghymru a oedd wedi'i arfaethu ar gyfer melinau coed ei brosesu yng Nghymru. Mae bron y cyfan o'r gweddill yn cael ei brosesu yn Lloegr. Nid oes tuedd amlwg ond mae'r gyfran o goed a dyfir yng Nghymru ac a gynaeafir yng Nghymru wedi aros ychydig o dan 70% yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn ceisio gwella'r ffynonellau data ar gyfer y mesur hwn yn 2010.

canran

Blwyddyn galendr:	2004	2005	2006	2007	2008
% o bren meddal wedi'i dyfu yng Nghymru ar gyfer melinau coed a brosesir yng Nghymru	74	69	67	69	68
% o goed wedi'i dyfu yn Lloegr a brosesir yng Nghymru	18	7	13	12	8
% o goed wedi'i dyfu yn yr Alban a brosesir yng Nghymru	3	7	4	4	3

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth. SYLWER: O 2005 ymlaen, ar sail 8 melin yng Nghymru sy'n cynhyrchu dros 10,000m^3 o bren wedi'i lifio (meddal a chaled). Yn 2004, ar sail pob melin yng Nghymru sy'n cynhyrchu dros 5,000m^3.

7(e) Cyfran o dai newydd sy'n defnyddio fframwaith coed

Mae'r data diweddaraf o Gymdeithas Fframwaith Coed y DU yn dangos bod gan 15% o dai newydd yng Nghymru fframwaith coed yn 2008 (12% yn 2007). Mae hyn yn cymharu'n weddol dda â Lloegr (17% ar hyn o bryd) ond mae ymhell y tu ôl i'r Alban (76% ar hyn o bryd). Mae'n rhy gynnar i ddweud bod tuedd yng Nghymru. Rydym wedi gosod targed ar gyfer y mesur hwn yn gynt na'r disgwyl, sef 16% o dai newydd yn 2012.

Canran o dai newydd yr oedd ganddynt fframwaith coed:



Ffynhonnell: Cymdeithas Fframwaith Coed y DU

8. Hyd a lled coetiroedd brodorol

8(a) Arwynebedd o goetir brodorol yng Nghymru

Ym 1997, roedd 110,000 ha o goetir brodorol yng Nghymru. Ein targed yw cynyddu hyn i 133,000 ha erbyn 2025. Sut bynnag, ni fydd diweddariad ar gael hyd 2014 (pan fydd data o arolwg maes y Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol ar gael).

8(b) Arwynebedd o goetir brodorol newydd a grëwyd ers 2009[b]

Ein targed yw gweld 1,000 ha o goetir brodorol newydd yn cael eu plannu rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2012, h.y. tua 330 ha y flwyddyn. Mae'r ffigurau dros dro ar gyfer plannu y talwyd amdano o dan CGG a Thir Gofal yn 2009/10 yn dod i gyfanswm o 174 ha, sy'n awgrymu bod perygl na fyddwn yn cwrdd â'r targed hwn. Bydd y ffigurau terfynol ar gael ym mis Medi 2010.

[b] *Sut y cyfrifir y ffigurau ar gyfer coetir brodorol newydd:* Caiff gwybodaeth am blannu newydd ei chasglu gan Uned Economeg ac Ystadegau Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr, ac mae'n dod o systemau gweinyddol megis GLADE. Yn achos cytrefu ac ildyfiant naturiol, yr arwynebeddau yw'r rheiny y mae ail randaliad y grant wedi cael ei dalu ar eu cyfer. Mae arwynebeddau sy'n derbyn grant yn cael eu neilltuo i flynyddoedd yn ôl dyddiad y taliad. Cynhwysir amcangyfrifon lleol ar gyfer arwynebeddau plannu ac ailstocio nad ydynt yn perthyn i'r CC ac na roddir grant ar eu cyfer. Mae'r amcangyfrifon hyn yn weddol fach a chymerwyd bod y cyfan o'r arwynebedd hwn yn goed llydanddail. Nid yw Coed Cadw yn gwneud unrhyw blannu y tu allan i gynlluniau CGG. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried a allwn gael data ar unrhyw gynnydd net mewn coetir gan yr Asiantaethau Cefnffyrdd.

hectarau

	Data hanesyddol ar blannu blynyddol						Plannu a gynlluniwyd mewn cynlluniau sydd wedi a heb eu cymeradwyo	
Blwyddyn ariannol:	04/05	05/06	06/07	07/08	08/09	09/10	10/11	11/12
CGG: Coetir brodorol	0	0	0	54	61	104	355	170
Cynllun Grant Coetir	521	452	388	147	5	0	0	0
Tir Gofal (y tu allan i CGG)	ddim ar gael	81	90	58	74	84	ddim ar gael	ddim ar gael
Cyfanswm coetir newydd (ha)	**521**	**533**	**478**	**259**	**140**	**188**	**355**	**170**

Ffynonellau: Data ar gyfer 2004/5 hyd 2008/9 o Ystadegau Coedwigaeth. Ffigurau ar gyfer 2010/11 a 2011/12 o'r gronfa ddata GLOS.

Ein targed ar gyfer 2012 yw creu cyfanswm o 1,500 ha o goetir newydd yn ystod y tair blynedd o 1 Ebrill 2009. Mae'r ffigurau dros dro ar gyfer plannu y talwyd amdano o dan CGG a Thir Gofal yn 2009/10 yn dod i gyfanswm o 218 ha, sy'n awgrymu bod perygl na fyddwn yn cwrdd â'r targed hwn. Bydd y ffigurau terfynol ar gael ym mis Medi 2010.

8(ci) Cynllunio a blaenoriaethu adfer PSCH/PAWS ar YGLlC

Ar YGLlC mae Rhanbarthau'n asesu faint o'u PSCH sy'n debygol o ddod yn frodorol drwy waith a gynllunnir. Hefyd, mae Grŵp Gweithredu Polisi wedi cael ei sefydlu i edrych ar gynllunio a blaenoriaethu adfer pob PSCH y gellir ei hadfer ar YGLlC erbyn 31/3/11. Bydd yn:

- Blaenoriaethu pob safle PSCH ar sail methodoleg blaenoriaethu AEHA/ROFI, gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd, erbyn 31/3/10.
- Cynnal arolwg ar draws pob safle PSCH ar YGLlC yn ystod y 3 blynedd nesaf. Mae Coed y Cymoedd eisoes wedi tendro – anogir rhanbarthau eraill a'r tîm Polisi i gyllidebu ar gyfer gwaith arolwg o 2010/11 ymlaen.
- Ail-ystyried y blaenoriaethau ar sail y wybodaeth newydd hon.
- Defnyddio canlyniadau'r arolwg i asesu cyflwr presennol (pa mor frodorol ydynt a'u cyflwr) ein coetiroedd PSCH ac i'n galluogi i fonitro newid dros gyfnod o amser.

8(cii) Arwynebedd o PSCH/PAWS a adferwyd yn goetir brodorol ers 2009

Ein targed yw gweld 1,000 ha o PSCH yn cael eu hadfer yn goetir brodorol (>50% yn rhywogaethau brodorol) rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2012, h.y. 333 ha y flwyddyn ar gyfartaledd.

Nid ydym yn gallu adrodd ar hyn o bryd ar yr arwynebedd o PSCH ar YGLlC sydd wedi cael ei adfer i >50% o rywogaethau brodorol drwy deneuo. Ond credwn i 28 ha gael eu hadfer drwy gwympo ac ailstocio yn 2009/10 (gall y ffigur hwn gael ei ddiwygio wrth i'r Gronfa Ddata o Isadrannau (SCDB) gael ei diweddaru), ac i 52 ha o PSCH gael eu hadfer o dan CGG, sy'n gwneud cyfanswm o 80 ha yn 2009/10. Hefyd, cafodd 195 ha o PSCH o dan

Mesurau Perfformiad Corfforaethol

CGG o leiaf un ymyriad a allai fod wedi arwain at adferiad llawn er na ellir bod yn sicr o hyn.

Bwriedir adfer ardaloedd llawer ehangach o dan CGG yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Bydd yn anodd adrodd ar gynnydd hyd nes i ni ddatblygu dulliau o fesur adfer drwy deneuo ar YGLlC, ac o fesur pryd y mae ymyriadau wedi arwain at adfer coetir o dan CGG.

hectarau

	Data hanesyddol ar yr arwynebedd a drawsnewidiwyd ym mhob blwyddyn					Gwaith adfer a gynlluniwyd mewn cynlluniau sydd wedi ac sydd heb eu cymeradwyo ar gyfer pob blwyddyn	
Blwyddyn ariannol:	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12
Arwynebedd PSCH a adferwyd yn llawn o dan CGG i >50% brodorol[a]	0	0	24	31	52	170	58
Arwynebeddau ychwanegol o PSCH o dan CGG gydag ymyriadau sy'n cyfrannu at adfer[b]	0	0	126	128	195	1104	569
Arwynebedd PSCH o dan y Cynllun Grant Coetir a ailstociwyd i >50% brodorol	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	0	0
Arwynebedd PSCH ar YGLlC a lwyrdorrwyd ac a ailstociwyd â choed llydanddail[c]	140	73	85	83	28	anhysbys	anhysbys
Arwynebedd PSCH ar YGLlC a adferwyd drwy deneuo	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys
Cyfanswm yr arwynebedd o PSCH a adferwyd	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys

Ffynonellau: [a] Cronfa ddata GLOS. [b] Gall yr arwynebeddau hyn fod wedi'u hadfer yn rhannol neu'n llawn – maent wedi cael o leiaf un ymyriad, e.e. cwympo detholus, glanhau ac ailofodi, plannu darnau o dir neu deneuo. [c] Dadansoddiad o'r SCDB a edrychodd ar yr arwynebedd o PSCH a oedd wedi cael ei ailstocio gyda >50% o rywogaethau brodorol erbyn y dyddiad ailstocio.

8(d) Arwynebedd o goetir arall a drawsnewidiwyd yn goetir brodorol ers 2009

Ein targed yw nodi ardaloedd o goetir anfrodorol anhynafol i'w trawsnewid yn goetir brodorol erbyn 31/3/11, ac i drawsnewid 5,000 ha o goetiroedd o'r fath erbyn 2025.

hectarau

	Data hanesyddol ar yr arwynebedd a drawsnewidiwyd ym mhob blwyddyn					Gwaith adfer a gynlluniwyd mewn cynlluniau sydd wedi ac sydd heb eu cymeradwyo ar gyfer pob blwyddyn	
Blwyddyn ariannol:	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12
Arwynebedd o goetir anfrodorol anhynafol a drawsnewidiwyd yn goetir brodorol ar YGLlC	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys
Arwynebedd o goetir anfrodorol anhynafol a drawsnewidiwyd yn goetir brodorol o dan CGG[a]	0	0	7	31	34	336	147
Arwynebedd o goetir anfrodorol anhynafol a drawsnewidiwyd yn goetir brodorol o dan y Cynllun Grant Coetir	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys
Cyfanswm yr arwynebedd o goetir anfrodorol anhynafol a drawsnewidiwyd yn goetir brodorol	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys	anhysbys

Ffynhonnell: [a] Cronfa ddata GLOS

Y tu allan i YGLlC, cafodd 34 ha o gonwydd anhynafol eu trawsnewid yn 2009/10, ac mae cynlluniau rheoli coedwig CGG wedi nodi 483 ha arall a all gael eu trawsnewid yn goetir brodorol erbyn 2012.

O ran YGLlC, awgrymwyd yn ystod trafodaethau'r grŵp gweithredu polisi PSCH/PAWS y byddai ardaloedd y nodwyd eu bod o bosibl yn hynafol ar y Rhestr Goetir Hynafol (AWI) (Arolwg Laing a Tucker 2001), ond nad oeddynt i'w gweld ar y Rhestr Goetir Hynafol ddiwygiedig (a gyhoeddir yn 2010), yn ddelfrydol at y pwrpas hwn. Awgrymodd gwaith peilot y byddai oddeutu 5,000 ha o goetiroedd o'r fath. Byddai gan y coetiroedd hyn y nodweddion canlynol:

- Byddai ganddynt beth diddordeb ecolegol eisoes (maent eisoes wedi cael eu nodi fel rhai sydd o bosibl yn hynafol)
- Byddent wrth ymyl coetir hynafol, felly byddai eu trawsnewid yn goetir brodorol yn ychwanegu gwerth
- Byddent yn rhan o rwydwaith o gynefinoedd fel coetir hynafol cyfagos
- Maent yn cael eu trin fel PSCH ar hyn o bryd gan YGLlC.

I grynhoi, mae'r cynnydd presennol sy'n cael ei wneud yn awgrymu y byddwn yn cwrdd â'r targed i nodi o leiaf 5,000 ha ar gyfer trawsnewid erbyn 31 Mawrth 2011.

9. Cyflwr coetiroedd brodorol

Rydym wedi gosod y man cychwyn ar gyfer cyflwr coetir brodorol un unol â'r amserlen. Ein targed tymor-hir yw sicrhau bod 43% o'r 110,000 ha o goetir brodorol mewn cyflwr ffafriol neu'n cael ei adfer erbyn 2020. Mae'n rhy gynnar eto i ddweud a ydym yn debygol o gwrdd â'r targed hwn, ond y sefyllfa bresennol yw mai dim ond 23% o goetir brodorol ar safleoedd dynodedig sydd mewn cyflwr ffafriol neu'n cael ei adfer.

(a) Cyflwr yr holl goetir brodorol ar hyd a lled Cymru

Mae NIWT 1 yn darparu gwybodaeth am fan cychwyn 1997 ar gyfer cyflwr coetir brodorol. Ni fydd diweddariad ar gael hyd 2014 (pryd y bydd data o arolwg maes y Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol ar gael). Sut bynnag, mae'r ffigurau man cychwyn yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfaint pren marw ymhell o dan y lefel sydd ei heisiau, a bod cyflwr coetiroedd ar safleoedd dynodedig yn anffafriol ar y cyfan.

Mesur cyflwr	Cymru	Targed a sylwadau
Gorchudd haen lwyni cymedrig (%) coetir brodorol	30% (cyfeiliornad safonol 0.6)	Disgwyliwn i hyn aros yn sefydlog neu gynyddu yn y tymor hir. Mae'r gorchudd haen lwyni cymedrig yng Nghymru yn uwch nag yn yr Alban, efallai gan fod llai o bwysau o bori.
Nifer cymedrig o rywogaethau o goed/llwyni am bob 0.25 ha o goetir brodorol	4.27 (cyfeiliornad safonol 0.05)	Disgwyliwn i hyn aros yn sefydlog neu gynyddu yn y tymor hir.
Cyfaint cymedrig o bren marw mewn coetir brodorol (m3 yr ha)	0.6	Mae hyn ymhell o dan y cyfaint o 20m3 yr ha sydd ei angen i gydymffurfio â Safon Sicrhau Coetir y DU. Hefyd mae'n is na'r 4.4 m3 yr ha a gofnodwyd ar gyfer yr Alban.
Cyfran o (i) coetir brodorol a (ii) coetir derw sydd yn y cyfnod hen-dyfiant (%)	(i) 23% (ii) 39%	Yn y tymor hir, disgwylir y bydd cynnydd yn y gyfran o goetir brodorol sy'n dod o fewn y categori hen-dyfiant. Ond gallai plannu coetiroedd brodorol helaeth newydd beri i'r gyfran leihau yn y tymor byr i ganolig.

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata arolwg maes o'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed (NIWT) 1997

b) Cyflwr coetir ar safleoedd dynodedig

Ers 2002, bu Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn asesu cyflwr 47 o nodweddion coetir o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, a sefydlwyd blwyddyn gychwynnol o 2006 ar gyfer y mesur hwn. Bydd asesiadau CCGC yn y dyfodol yn caniatáu i ni fonitro newid yng nghyflwr y nodweddion hyn.

	% o nodweddion	% o arwynebedd coetir
Ffafriol – yn cael eu cynnal	21.3%	8.8%
Ffafriol – heb eu dosbarthu	4.3%	0.5%
Anffafriol – yn adfer	21.3%	14.1%
Cyfanswm yn ffafriol neu'n adfer	**46.8%**	**23.4%**
Anffafriol – dim newid	14.9%	12.7%
Anffafriol – yn dirywio	14.9%	20.4%
Anffafriol – heb eu dosbarthu	23.4%	43.4%
Cyfanswm yn anffafriol	53.2%	76.6%
Aseswyd	47 nodwedd	5424 ha

Ffynhonnell: Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Mesurau Busnes

1. Boddhad staff

Ein targed yw defnyddio Arolwg 2009 i gynhyrchu man cychwyn, ac yna sicrhau gwelliant o 2% yn y canlyniadau cryno ar gyfer meysydd cwestiynau penodol erbyn 2012. Roedd y gyfradd ymateb i Arolwg 2009 yn 56% yng Nghymru.



2. Amrywiaeth staff

(a) Cyfran y staff sy'n Fenywod

Ein targed yw cynyddu'r gyfran o staff benyw yn CCC i 32% erbyn 31 Mawrth 2012. Bu cynnydd o oddeutu 4% yn y gyfran o staff benyw yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf (gweler isod). Rydym yn debygol o gwrdd â'r targed hwn.

(b) Cyfran y staff ag anabledd

Ein targed yw cynyddu'r gyfran o staff CCC sydd ag anabledd wedi'i hunanddatgan i 3.5%. Mae'r gyfran yn 2.7% ar hyn o bryd. Mae'n rhy gynnar i ddweud a fyddwn yn cwrdd â'r targed hwn.

	2005[1]		Mehefin 2007[1]		31/3/08		31/3/09		31/3/10	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Menywod	114	26.6	104	25.9	103	30.4	111[2]	30.8	121[3]	31.1
Anabledd wedi'i hunanddatgan	-	-	-	-	10	2.9	10[1]	2.7	10[3]	2.7
Cyfanswm niferoedd staff	429		401		339		360[2]		388[4]	

Ffynhonnell: [1] Adroddiadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y CC, 2005 a 2007 [2] Adroddiadau monitro Rhyw ac Anabledd y CC, 2008 a 2009 [3] Erfyn metrigau busnes Adnoddau Dynol [4] Cofnodion Systemau Cyllid

3. Anghenion hyfforddiant staff

Ein targed yw sicrhau bod 80% o anghenion hyfforddi a nodir yn cael eu cyflawni neu eu rhaglennu erbyn 2012. Darparwyd 384 o ddyddiau hyfforddi gan Ddysgu a Datblygu, sy'n 72 o ddyddiau'n fwy na'r targed o 312 diwrnod. O'u dadansoddi, gwelir i 131% o hyfforddiant technegol ac 128% o hyfforddiant datblygu gael ei gwblhau yn 2009/10. Mae'r ffigurau hyn ymhell uwchben y targed a osodwyd ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd yn y flwyddyn gyntaf hon.

4. Manteisio ar anghenion hyfforddiant ffurfiol a nodir ar gyfer staff

Ein targed yw sicrhau bod 95% o staff enwebedig yn mynychu digwyddiadau dysgu a datblygu gorfodol / y cytunwyd arnynt. Manteisiodd staff ar 1,095 o leoedd cwrs cynlluniedig, roedd presenoldeb yn 95.6% a chanslwyd 48 o leoedd, felly llwyddwyd i gwrdd â'r targed hwn. Mae angen gwneud mwy o waith ar y mesur hwn i ddarganfod y ffactorau sy'n arwain at ganslo (absenoldeb oherwydd salwch, niferoedd annigonol); mae cyrsiau lle mae unigolion wedi trosglwyddo i gwrs arall wedi cael eu cymryd i ystyriaeth. Rydym yn debygol o gwrdd â'r targed hwn yn ystod y cyfnod o 3 blynedd.

5. Cyfran y swyddi y nodir bod angen cymhwysedd yn y Gymraeg ar eu cyfer ac a lenwir â staff â sgiliau priodol

Mae man cychwyn 2009 sy'n nodi dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yn CCC ac yn blaenoriaethu swyddi lle mae angen 'cyfatebiaeth' well wedi cael ei gwblhau yn unol â'r amserlen. Ar ôl cyflwyno'r papur i'r Bwrdd Rheoli ym mis Tachwedd cytunwyd y byddid yn datblygu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog. Mae hon wedi cael ei chwblhau a'i chyflwyno'r mis hwn i'r Bwrdd Rheoli fel y gall ei hystyried a'i chymeradwyo.

Ymgymerwyd ag ymarfer y llynedd i fapio a rhagweld y sgiliau dwyieithog y byddai eu hangen ar gyfer swyddi yn ystod cyfnod 15 mlynedd y Cynllun Corfforaethol. O ganlyniad, nodwyd bod angen gwahanol lefelau o rugledd ar gyfer 119 o swyddi er mwyn darparu gwasanaethu dwyieithog, yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli. Yn y ddogfen strategol argymhellir gwahanol gamau y gellid eu cymryd i gyflawni'r lefelau hyn. Un dewis yw recriwtio staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol. Mae pedair swydd wag ar hyn o bryd (mewnol ac allanol) lle y nodir yn yr hysbysebion fod y Gymraeg yn hanfodol.

6. Cynhyrchu set o gyfrifon ddiamod

Cynhyrchwyd set o gyfrifon ddiamod ar gyfer 2008/09 cyn 31 Gorffennaf 2009, yn unol â'r amserlen. Byddwn yn dilyn trefn debyg ar gyfer 2009/10 i sicrhau y cynhyrchir set o gyfrifon ddiamod erbyn 31 Gorffennaf 2010. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn unol â'r amserlen.

7. Cyllid nid-man cychwyn ar gyfer blaenoriaethau corfforaethol

Ein targed yw sicrhau £12 miliwn o gyllid nid-man cychwyn ar gyfer blaenoriaethau corfforaethol yn ystod y tair blynedd o 1/4/09 i 31/3/12. Rydym ar hyn o bryd wedi sicrhau £12.2 filiwn ac mae cyfanswm o £12.9 miliwn yn bosibl. Rydym mewn sefyllfa i gwrdd â'r targed hwn.

Gwerth crynswth – cyfraniad CCC miloedd o £

Cyllid	Prosiect	2009-10	2010-11	2011-12	2012 ymlaen
Wedi'i sicrhau:	Cynllun Grant Prosesu a Marchnata	1,430			
	Trosglwyddo Gwybodaeth	746			
	Cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi	468			
	Cynllun Busnes Egni Coed II	391	2,389	6,388	9,844
	IMPACT	4	100	111	121
	FUTUREforest	91	74	38	
	Cyfanswm a Sicrhawyd 09/10 – 11/12 = £12.2M	***3,130***	***2,563***	***6,537***	***9,965***
Posibl:	CONSTRUCT			82	82
	E4G - Coed y Brenin		147	447	427
	Parc Rhanbarthol y Cymoedd - Rhaeadrau			38	
	Canolfan Rhagoriaeth ar gyfer Beicio - Gethin				
	Blaenau'r Cymoedd				
	Cyfanswm sy'n Bosibl		***147***	***567***	***509***
Cyfansymiau Blynyddol		**3,130**	**2,710**	**7,104**	**10,474**
	Cyfanswm a Sicrhawyd ac sy'n Bosibl 09/10 – 11/12 = £12.9M				

Ffynhonnell: Cofnodion Cyllid Allanol

Mae'r Cynllun Coetir ar gyfer Blaenau'r Cymoedd newydd gael ei roi ar waith, felly nid ydym wedi gallu asesu eto faint o gyllid y bydd ei angen o'r ffynonellau hyn. Cyflwynwyd cais i Barc Rhanbarthol y Cymoedd ym mis Ionawr/Chwefror 2010. Mae'r ffigurau ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd - Garwnant a'r prosiect E4G - Coed y Brenin heb eu cadarnhau eto.

8. Sylw yn y wasg

Ein targed yw cyhoeddi 200 datganiad i'r wasg ar gyfartaledd bob blwyddyn hyd 2012 (h.y. targed cyffredinol o 600 o ddatganiadau i'r wasg yn ystod y tair blynedd). Cyhoeddwyd 171 o ddatganiadau i'r wasg yn 2009/10 felly rydym ychydig ar ei hôl hi o ran cyflawni'r targed hwn. Ond rydym wedi rhagori ar ein targed ar gyfer sylw ffafriol, gan gyrraedd 75.5%. Mae hyn yn ganlyniad i'n cyfathrebu rhagweithiol (a oedd yn cyfrif am 725 o'r holl eitemau newyddion) a'n gallu i ragweld a lleihau effaith sylw anffafriol (a oedd yn cyfrif am 51 o'r holl eitemau newyddion).

	Targed ar gyfer y cyfnod tair blynedd	2009/10
Nifer y datganiadau i'r wasg bob blwyddyn[1]	200 ar gyfartaledd bob blwyddyn	171
Nifer yr eitemau newyddion[2]	-	877
% o sylw ffafriol[2]	60%	75.5%
% o sylw ffeithiol[2]	-	19.5%
% o sylw anffafriol[2]	-	5%

Ffynonellau: [1] Cofnodion cyfathrebu, [2] Adroddiad Gwerthuso'r Cyfryngau gan Press Data Ltd.

Sylwer: Cafodd eitemau/erthyglau eraill i'r wasg eu cynhyrchu yn ogystal â datganiadau - ni chynhwyswyd y rhain uchod.

9. Targedau cynaliadwyedd busnes

(a) Defnyddio egni:

Ein targed yw sicrhau gostyngiad o 5% bob blwyddyn mewn allyriadau carbon o ddefnyddio egni yn ystod y tair blynedd rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2012. Ar gyfer 2009/10 rydym wedi defnyddio data ar gyfer yr 11 mis cyntaf i amcangyfrif y cyfanswm ar gyfer y flwyddyn ac wedi cymharu hyn â ffigur man cychwyn 2008/09. Rydym wedi rhagori ar y targed drwy sicrhau gostyngiad o 3.4% mewn allyriadau o ddefnyddio egni.

miloedd o kg o CO_2(e)

	2008/09	2009/10		Gostyngiad fel %	
		Cyllideb	Gwirioneddol	Targed	Gwirioneddol
Defnyddio Egni	605.6	587.5	585.1	3%	3.4%

Ffynhonnell: Cofnodion tîm Cyllid CCC. Ffactorau trawsnewid fel y'u hargymhellir gan Gynaliadwyedd Busnes. Mae'r ffigurau'n cynnwys y Swyddfa Genedlaethol, Penrhyn-coch a swyddfa Nant yr Arian ar gyfer 2008/09 a 2009/10: gadawyd y swyddfeydd hyn ym mis Rhagfyr 2009. Ond ni chynhwyswyd ffigurau Tal-y-bont a gaiff eu hadrodd gan Ymchwil Coedwig.

SYLWER: Cynhwysir gwybodaeth am ddefnyddio trydan, nwy, olew ac LPG. Ni chynhwysir defnydd o egni biotanwydd.

(b) Allyriadau o deithio:

Ein targed yw sicrhau gostyngiad o 5% bob blwyddyn mewn allyriadau carbon o deithio gan staff yn ystod y tair blynedd rhwng 1 Ebriill 2009 a 31 Mawrth 2012.

Bu gostyngiad mawr mewn milltiroedd car preifat, a gostyngiadau hefyd mewn milltiroedd awyr a milltiroedd gan gerbydau'r CC. Mae'r cynnydd mewn milltiroedd trên yn dangos bod symudiad pendant o ddefnyddio awyren i ddefnyddio trên.

Er y bu gostyngiad o 15% mewn milltiroedd awyr, 1.6% oedd y gostyngiad mewn allyriadau carbon o ganlyniad i filltiroedd awyr. Mae hyn o ganlyniad i ffactorau trawsnewid CO_2e sy'n cymryd i ystyriaeth y gwahaniaethau mewn cyfraddau allyriadau ar gyfer teithiau hedfan pellter byr a phellter hir. Mae hediadau pellter byr yn fwy carbon ddwys y filltir gan fod canran uchel o danwydd yn cael ei ddefnyddio wrth i'r awyren esgyn.

Tabl Cryno	**MILLTIREDD** (miloedd o filltiroedd)				**ALLYRIADAU CARBON DEUOCSID** CO_2e (miloedd o kg)			
	08/09	09/10			08/09	09/10		
	Gwir.	Targed	Gwir.	%	Gwir.	Targed	Gwir.	%
Cerbydau'r CC	2,675	2,541	2,607	-2.6%	856	814	817	-4.6%
Ceir Preifat	673	640	558	-17.2%	161	154	130	-19.5%
Milltiroedd Awyr	124	117	105	-15.1%	32	30	31	-1.6%
Milltiroedd ar y Trên	97	102	107	10.2%	9	10	10	+10.4%
Cyfanswm Milltiroedd	**3,569**	**3,401**	**3,377**	**-5.4%**	**1,058**	**1,007**	**989**	**-6.63%**

Ffynhonnell: Cofnodion tîm Cyllid CCC *wedi'u casglu o EEM, GPC, Data am geir fflyd. Daw'r ffactorau trawsnewid a ddefnyddiwyd o ffactorau trawsnewid safonol DEFRA.*

NODYN: [1] Milltiroedd awyr: Ni chynhwysir gorfodi pelydrol (*radiative forcing*) yn y ffactorau trawsnewid safonol ond mae'n debygol o fod oddeutu 2-4 gwaith yn fwy na'r allyriad carbon uniongyrchol. Os cynhwysir ef, bydd y CO_2e o deithiau awyr yn 2-4 gwaith yn fwy na'r hyn a nodir uchod.
NODYN: [2] Milltiredd: **a)** ni chynhwyswyd ffigurau TAN8: prosiect Llywodraeth Cynulliad Cymru **b)** nid yw'r ffigurau'n cynnwys milltiroedd FUTUREForest allanol.

(c) a (d) Swm o wastraff (wedi'i ailgylchu a heb ei ailgylchu)

Bu cynnydd sylweddol mewn gwastraff wedi'i ailgylchu a gwastraff tirlenwi, o ganlyniad i adnewyddu swyddfeydd yn ddiweddar. Cynhwyswyd data ar gyfer Tŷ Buddug, Penrhyn-coch a Nant yr Arian, ond gadawyd yr adeiladau hyn ym mis Rhagfyr 2009. O ganlyniad i symud swyddfeydd, dylem weld newid cadarnhaol yn y swm o wastraff.

Mae Cronfa Ddata Reoli Cymru Prydain Fawr yn weithredol bellach, ond mae ansawdd y data sydd ynddi ar gyfer 2009/10 yn achosi problemau. Mae Ystadau yn arwain y gwaith o fonitro a chasglu'r data er mwyn sicrhau bod y data'n cael eu cipio mewn ffordd gyson.

Man cychwyn rhannol: Gwastraff wedi'i ailgylchu a heb ei ailgylchu yn 2009/10:

kg

CCC	Papur	Cardbord	Plastig	Gwydr	Metel	Tecstilau	**Cyfanswm a ailgylchwyd**	**Compostiwyd**	**Gwastraff tirlenwi arall**
08/09	106,89		440	440	182	**0**	**11,756**	**0**	**10,033**
09/10	185,60		980	535	247	**0**	**20,322**	**269**	**18,359**

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir gan y Swyddog Cynaliadwyedd Busnes ym mhob canolfan gost